Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Mynyddygarreg
Mynyddygarreg
Cydweli
Sir Gaerfyrddin
SA17 4RL

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2014**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ym mhentref Mynyddygarreg ger Cydweli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o'i hamgylch.

Mae 45 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys pum disgybl oed meithrin amser llawn. Maent wedi'u trefnu mewn dau ddosbarth o oed cymysg. Mae'r disgyblion yn cael eu derbyn yn amser llawn i'r ysgol ar ddechrau'r tymor y maent yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae niferoedd y disgyblion wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diweddar.

Mae'r ysgol wedi adnabod oddeutu 35% o'r disgyblion fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys nifer fach iawn o ddisgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan tua 24% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio am ddim sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Saesneg yw prif iaith y cartref i tua 70% o'r disgyblion.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2008. Ers Ebrill 2013, mae'r ysgol wedi bod yn rhan o gynllun anffurfiol o ffederaleiddio gydag Ysgol Gymunedol Trimsaran.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ebrill 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn 2013-2014 yw £3,916. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn safle 37ain o'r 106 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod yr athrawon yn darparu amrediad o brofiadau dysgu diddorol;
- bod disgyblion yn elwa o'r sesiynau i gryfhau eu medrau darllen;
- bod disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau rhifedd yn eu gwersi mathemateg;
- bod safon yr addysgu yn dda ar y cyfan;
- bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais a gydag agweddau da tuag at ddysgu; a
- bod yr ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a chartrefol.

Fodd bynnag:

- mae datblygiad medrau llafar a darllen Cymraeg y disgyblion yn anwastad;
- nid oes llawer o'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn medrau ysgrifennu estynedig, yn arbennig ar draws y pynciau;
- mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn flêr;
- nid yw'r tasgau bob amser yn ymestyn medrau'r disgyblion mwy abl; ac
- nid yw dulliau marcio yn cael eu gweithredu yn ddigon cyson i gynorthwyo disgyblion i wella safon eu gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod arweinyddiaeth y pennaeth yn gosod cyfeiriad clir a disgwyliadau uchel ar gyfer gwelliant pellach;
- bod gweithdrefnau hunanarfarnu yn adnabod meysydd priodol i'w gwella ac yn targedu cymorth ychwanegol yn effeithiol;
- bod cyswllt amlwg rhwng y broses hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol;
- bod tystiolaeth o gynllunio a gweithredu gwelliannau'n llwyddiannus;
- bod y disgyblion a'r staff yn elwa o'r bartneriaeth agos ag ysgol arall y ffederasiwn; a
- bod y cydweithio agos gyda'r corff llywodraethol, rhieni a phartneriaid eraill yn dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar waith yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion

A2 Cryfhau medrau llafar a darllen Cymraeg disgyblion

A3 Ymestyn medrau'r disgyblion mwy abl yn gyson

A4 Gwella safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2

A5 Datblygu'r dulliau o ymateb i waith disgyblion a'u cynnwys yn fwy yn y broses

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r hyn maent wedi'i ddysgu yn eu gwersi ac yn eu gweithgareddau. Er hyn, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn ymestyn eu medrau ar draws y gweithgareddau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn sgwrsio'n rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion mwy galluog yn trafod a lleisio barn yn effeithiol yn Saesneg, gan ddefnyddio geirfa estynedig. Yn gyffredinol, mae ystod geirfa a chywirdeb mynegiant Cymraeg disgyblion yn amrywio. Nid yw llawer o ddisgyblion, yn arbennig y disgyblion mwy abl, yn cyfrannu'n ddigon estynedig wrth ateb cwestiynau yn Gymraeg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, ac yn medru trafod storïau a chymeriadau'n effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ar goedd yn rhugl ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae lleiafrif yn darllen yn ddiofal a gwallus. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn trafod cynnwys eu llyfrau yn briodol, yn cynnwys mynegi barn am eu hoff awduron. Nid yw gallu disgyblion yn gyffredinol i drafod cynnwys eu llyfrau wedi datblygu cystal. Gwna rhan fwyaf y disgyblion ddefnydd priodol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau ac oddi ar wefannau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol wrth gofnodi eu profiadau dysgu. Maent yn defnyddio ystod o atalnodi gyda chywirdeb priodol ac yn sillafu nifer gynyddol o eiriau'n gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd priodol o storïau fel symbyliad ar gyfer eu hysgrifennu. Maent yn deall strwythur stori ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu i gyflwyno eu syniadau'n glir mewn dilyniant o baragraffau. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion wedi datblygu'r medrau sydd eu hangen i ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion yn ddigon cadarn. O ganlyniad, nid yw disgyblion, yn arbennig y disgyblion mwy abl, yn cynhyrchu digon o ddarnau ysgrifenedig estynedig ar draws y pynciau. Mae disgyblion yn dechrau datblygu'r medrau o ddrafftio a gwella'u gwaith. Er hyn, mae gafael llawer o ddisgyblion ar fedrau sillafu, a phatrymau brawddegol Cymraeg yn ansicr. Mae craffu ar waith yn llyfrau'r disgyblion yn dangos bod llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y mwyafrif o ddisgyblion yn flêr.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael briodol ar fathemateg pen ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion siapiau

ac mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Gallant gasglu, cofnodi a chyflwyno data yn gywir. Mae'r graffiau bloc i ddangos canlyniad arolwg adar yn enghraifft o hyn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth sicr o ffeithiau rhif. Mae llawer yn barod i gynnig atebion a rhannu eu canfyddiadau, gan ddefnyddio termau mathemategol cywir. Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth o rannu, lluosi, mesur ac amcangyfrif yn effeithiol mewn cyd-destunau gwahanol. Mae llawer o ddisgyblion yn medru casglu a chynrychioli data yn gywir mewn tasgau rhif ac mewn tasgau ymchwilio mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn rhoi digon o sylw bob amser i sicrhau trefn eglur i'w cyfrifiadau mathemategol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson ac yn cyflawni eu targedau.

Rhaid trin data am berfformiad yr ysgol dros amser yn ofalus gan fod nifer y disgyblion mewn blwyddyn a'r canran o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n arwyddocaol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) dros gyfnod o ddwy flynedd yn anwastad. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, mae perfformiad yr ysgol mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol yn symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) yn symud yr ysgol rhwng y 50% is a'r 25% isaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol dros gyfnod ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn anwastad ond ar i fyny yn 2013 yn y rhan fwyaf o bynciau. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, mae'r canlyniadau ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch (lefel 5) yn symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach drwy fwyta ffrwythau a llysiau'n rheolaidd a gwneud ymarfer corff.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn medru troi at aelodau o staff yr ysgol am help pan fo angen. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn cydweithio'n adeiladol o fewn eu grwpiau ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a osodir.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau eu dysgu. Mae ganddynt ymagweddau da at ddysgu ac yn elwa o'r cysylltiadau cyson gydag Ysgol Trimsaran. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datgan yn gryf eu bod yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ganddynt i chwarae mewn tîm, i fod yn aelod o gôr ac i fynd ar ymweliadau yn rheolaidd.

Mae disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol sydd hefyd yn gyfrifol am y gwaith eco yn cyfrannu'n adeiladol at

benderfyniadau sy'n ymwneud â'u hysgol. Maent yn gyfrifol am drefnu'r siop ffrwythau ac wedi sicrhau hambyrddau er mwyn hwyluso trefniadau cinio. Maent yn flaengar wrth gyflwyno a monitro cynlluniau i arbed dŵr ac ynni yn yr adeilad.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb disgyblion yn y 25% uchaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd.

Mae ethos yr ysgol a'r cyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned, megis y cwrdd diolchgarwch, diwrnod mabolgampau a'r eisteddfod, yn datblygu medrau cymdeithasol a bywyd disgyblion yn effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol a diddorol o brofiadau dysgu i ddisgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yn drwyadl ac yn ymateb yn dda i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r defnydd o themâu yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus mewn sawl maes dysgu. Cânt eu cefnogi gan ystod dda o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi'r profiadau dysgu ymhellach. Mae'r athrawon yn darparu rhaglenni personol ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol.

Mae cynlluniau gwersi yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd, TGCh, ynghyd â medrau meddwl. Mae cynlluniau cadarn i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Er enghraifft, mae'r gweithgareddau i hybu medrau darllen y disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau. Nid yw'r ddarpariaeth i hybu medrau ysgrifennu annibynnol a medrau sillafu disgyblion wedi ei datblygu'n llawn. Mae'r athrawon yn paratoi gweithgareddau addas ar gyfer y disgyblion. Er hyn, nid yw'r tasgau bob amser yn cynnig digon o her i ymestyn medrau'r disgyblion mwy abl.

Mae darpariaeth gadarn ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn treiddio trwy holl waith yr ysgol. Mae cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddysgu am hanes, traddodiadau a diwylliant Cymru ynghyd â chyfleoedd cyson i astudio ac i gydweithio â sefydliadau o fewn yr ardal leol.

Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am eu rolau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang drwy'r cwricwlwm, mentrau codi arian at elusennau rhyngwladol, a gweithgareddau hybu Masnach Deg. Mae darpariaeth effeithiol i hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd.

**Addysgu: Da**

Mae'r newidiadau i drefn cynllunio a threfnu gwersi yn sicrhau strwythur clir i'r addysgu ac yn gwella safonau. Mae'r athrawon yn cynllunio eu gwersi yn ofalus gydag amcanion dysgu clir. Mae cynllunio trwyadl, tasgau diddorol a defnydd effeithiol o adnoddau yn sicrhau ymrwymiad gweithredol disgyblion yn eu dysgu. Mae'r cyflwyniadau pwrpasol a holi da, mewn gwersi mathemateg er enghraifft, yn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae staff cymorth yn cynnig cefnogaeth gadarn i'r disgyblion yn y gwersi ac mewn gweithgareddau eraill ar draws yr ysgol.

Mae craffu ar lyfrau disgyblion yn dangos cynnydd mewn ansawdd a safonau gwaith y disgyblion. Er hyn, nid yw'r disgwyliadau mewn agweddau ar y ddarpariaeth, megis safon cyflwyniad gwaith yng nghyfnod allweddol 2, yn ddigon cyson.

Caiff cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol ei olrhain yn effeithiol er mwyn nodi disgyblion sydd yn tangyflawni a darparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r sustemau asesu yn briodol wrth gynllunio gwaith pellach. Mae disgyblion yn derbyn adborth llafar adeiladol ar eu gwaith. Er hyn, nid yw'r sylwadau a wneir ar waith ysgrifenedig disgyblion yn rhoi digon o arweiniad bob amser ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae cyfleoedd i ddisgyblion i asesu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd ond nid yw'r ddarpariaeth wedi'i sefydlu'n ddigon cadarn..

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant, ac mae'r adroddiadau yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned hapus a gofalgar. Mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae sesiynau addoli ar y cyd, y ffocws ar hybu gwerthoedd, a'r cydweithio gyda'r gymuned leol yn cynnig profiadau buddiol sydd yn cyfrannu at hyn.

Mae aelodau staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, megis gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, a swyddogion lles, er mwyn sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion, staff a rhieni fel ei gilydd.

Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr i adnabod anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion yn fuan ac yn gweithredu'n brydlon a phwrpasol. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir a gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Caiff rhieni a disgyblion eu cynnwys yn llawn yn y broses o adolygu cynnydd a datblygiad.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cadarnhaol a chefnogol, gydag awyrgylch cartrefol ymhlith staff a disgyblion. Mae'r ethos cynhwysol yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r adeiladau a'r safle. Er bod rhannau o'r prif adeilad yn hen ac angen gwaith cynnal a chadw pellach, maent yn lân a thaclus. Mae'r adeilad yn darparu digon o ystafelloedd er bod nifer ohonynt yn fach. Mae addasiad o'r hen adeiladau tu allan i greu ardaloedd chwarae rôl i'r disgyblion

ieuengaf yn ddefnydd dychmygus o le. Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac ar draws yr ysgol yn creu amgylchedd diddorol sy'n dathlu gwaith a llwyddiannau disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau priodol sydd wedi eu cydweddu'n effeithiol i anghenion a diddordebau'r disgyblion. Mae'r ardaloedd allanol yn eang. Mae ardal ddysgu tu allan y Cyfnod Sylfaen yn adnodd ysgogol ar gyfer hyrwyddo medrau disgyblion ar draws y meysydd dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi rhoi arweiniad strategol cadarn i'r ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Mae trefniadau diweddar, sy'n canolbwyntio ar godi safonau gwaith disgyblion a mireinio gweithdrefnau'r ysgol, yn cael effaith arwyddocaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac yn gwella safonau.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ar y cyd gyda staff Ysgol Trimsaran. Mae hyn yn gyfle i rannu arbenigedd ac arfer dda. Mae'r holl staff yn llwyddo i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion ac yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol ac o'r prif feysydd sydd angen eu datblygu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol wrth fynd i'r afael â materion strategol pwysig megis datblygu'r bartneriaeth ffederal anffurfiol gydag ysgol arall. Mae'r aelodau yn gwneud defnydd cynyddol o ddata er mwyn adolygu perfformiad yr ysgol a'i gymharu gyda pherfformiad ysgolion tebyg. Mae'r ymweliadau â'r ysgol i arsylwi ar agweddau ar y ddarpariaeth, a thrafod gyda'r athrawon, yn datblygu eu gwybodaeth am ansawdd y ddarpariaeth addysgol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol megis y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a datblygu'r Gymraeg.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a cheisio barn reolaidd disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae ffordd y cychwynnwyd ar y broses o adnabod anghenion yr ysgol trwy gynnal ymchwiliadau manwl o'r holl ddarpariaeth yn nodwedd gref. Un enghraifft o hyn yw'r trafodaethau cyson gyda'r rhieni, a'r

cyfleoedd a roddwyd iddynt i gyfrannu i’r broses o greu cynllun strategol i’r ysgol, sydd yn sail i’r holl flaenoriaethau cyfredol.

Mae pob aelod o staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn y broses hunanarfarnu ac yn cynnig mewnbwn gwerthfawr i’r trafodaethau. Mae deilliannau’r prosesau hyn yn darparu asesiad cywir o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o’r wybodaeth a gesglir trwy’r broses hunanarfarnu i bennu blaenoriaethau allweddol a meysydd ffocws ar gyfer gwella’r ysgol. Mae’r cynllun datblygu yn gynhwysfawr ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol, ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy’n canolbwyntio’n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae’n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd.

Mae rheolaeth effeithiol y pennaeth yn sicrhau sylw da i brif amcanion y cynllun datblygu. Mae’r gwelliannau yn y cynllunio a’r addysgu, a’r cynnydd mewn medrau darllen, mathemateg a TGCh y disgyblion yn enghreifftiau o hyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol da sy’n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion.

Mae perthynas gref gyda rhieni a chyfeillion, sy’n cyfrannu arian sylweddol at brynu adnoddau ac offer er budd disgyblion. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad y rhieni i addysg eu plant.

Mae partneriaeth lewyrchus yn datblygu gydag ysgol y ffederasiwn trwy gydweithio pwrpasol, a rhannu arbenigedd ac arfer dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a safon gwaith disgyblion, ac ar ddatblygiad proffesiynol staff.

Mae partneriaeth gadarn gyda’r gymuned leol. Mae cyfraniad disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â’r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i’r ysgol, yn cyfoethogi’r profiadau dysgu. Mae hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a’u balchder yn eu hardal leol. Mae’r cyfle i fod yn rhan o brosiect cymunedol i gynllunio palmant o’r brif heol i’r ysgol yn enghraifft o hyn.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda’r cylch meithrin sy’n cyfrannu’n sylweddol at sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gyda’r ysgolion uwchradd lleol. Mae trefniadau pontio effeithiol ac ymweliadau yn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Mae’r ysgol wedi cydweithio’n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a’r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau’r awdurdod lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae’r prosesau hyn yn cynorthwyo’r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr, ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol.  Mae'r pennaeth, clerc a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus.  Mae'r adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithiol.  Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r adnoddau dysgu yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.  Mae'r buddsoddiad diweddar mewn offer technoleg gwybodaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau'r disgyblion.  Mae defnydd effeithiol o'r ardal tu allan i hybu profiadau dysgu disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn rhan o nifer o rwydweithiau dysgu sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd da i staff wella eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella medrau'r disgyblion, er enghraifft medrau rhifedd.

Mae trefniadau trylwyr yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon.  Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddi niferus sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus.

O ystyried deilliannau disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin data am berfformiad yr ysgol dros amser yn ofalus gan fod nifer y disgyblion mewn blwyddyn a'r canran o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n arwyddocaol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol yn anwastad. Yn asesiadau 2012, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) a'r deilliant uwch (deilliant 6) yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion ym mhob maes a aseswyd. Yn asesiadau 2013, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i ginio am ddim, roedd y canlyniadau'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ym mhob maes.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch yn 2013 yn is na'r teulu ym mhob maes. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd y canlyniadau yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol ac yn y 25% isaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn anwastad ond ar i fyny yn 2013 yn y rhan fwyaf o bynciau. Mae'r canlyniadau mewn Cymraeg yn gyson is na'r teulu. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, mae'r canlyniadau yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yn y rhan fwyaf o bynciau. Mae'r canlyniadau mewn Cymraeg yn y 25% isaf.

Mae'r canlyniadau ar y lefel uwch (lefel 5) yn anwastad o gymharu â chyfartaleddau'r teulu ond yn dangos gwelliant mewn Saesneg yn y ddwy flynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, mae'r canlyniadau yn 2013 yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is.

Nid oes patrwm cyson o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched nac ychwaith o gymharu perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r rhai sydd heb yr hawl.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 20 | 19<br>95% | 1<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 20 | 19<br>95% | 1<br>5% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 20 | 19<br>95% | 1<br>5% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 8 | 5 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 53% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 7 | 6 | 1 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 7% | 7% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 6 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 40% | 53% | 7% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 8 | 6 | 0 | 1 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 53% | 40% | 0% | 7% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 9 | 5 | 0 | 1 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 60% | 33% | 0% | 7% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 14 | 5 | 7 | 2 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 36% | 50% | 14% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 6 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 40% | 53% | 7% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 6 | 7 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 40% | 47% | 7% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 7 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 47% | 47% | 7% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 15 | 6 | 6 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 40% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 5<br>33% | 7<br>47% | 1<br>7% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 8<br>53% | 6<br>40% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 15 | 5<br>33% | 8<br>53% | 1<br>7% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 6<br>40% | 8<br>53% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 15 | 5<br>33% | 6<br>40% | 2<br>13% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 7<br>47% | 6<br>40% | 1<br>7% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 15 | 6<br>40% | 8<br>53% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Ann Fox | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sharon Owen | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.